PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD LLUN, 18 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

59 : YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Michael Michael.

60 : DATGANIADAU O FUDDIANT.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

61 : CYNIGION Y GYLLIDEB DDRAFFT 2019/20 - TROSOLWG CORFFORAETHOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi'r cyd-destun ar gyfer craffu ar yr adrannau hynny o Gynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor 2019 i 2022 a'r cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyllideb ddrafft y Cabinet 2019/20 sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny o dan gylch gwaith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Llesiant yn ddogfennau allweddol o ran cyflawni'r Uchelgais Prifddinas gan eu bod yn troi blaenoriaethau'r weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol y gellir eu cyflawni.  Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi amcanion llesiant.  Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mabwysiadu'r un set o 7 amcan llesiant sy'n adlewyrchu eu dyheadau a rennir ar gyfer y ddinas.  Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i strwythuro ar sail blaenoriaethau'r Uchelgais Prifddinas a'r 7 amcan llesiant.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn nodi'r mesurau a'r targedau perfformiad a fydd yn galluogi'r Cyngor i fonitro'r hyn a gyflawnir.

O ran y sefyllfa gyllidebol, dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan y Cyngor fwlch cyllidebol o tua £32,000,000 ar gyfer 2019/20.  Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion yr adnoddau yr oedd eu hangen er mwyn talu am wariant a sut yr eir i'r afael â'r diffyg ariannu.  I grynhoi:

- Arbedion Cyllideb - £19,157,000
- Dileu Mecanwaith Cydnerthedd Ariannol yn rhannol - £200,000
- Cyfraniad ysgolion at gwrdd â phwysau - £3,586,000,000
- Cynnydd Net yn y Dreth Gyngor o 4.9% - £6,745,000
- Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn - £2,750,000
- Cyfanswm - £32,438,000

Mewn perthynas â chynigion arbedion y gyllideb o £19,157,000:
- £4,878,000 yn deillio o gostau gweithwyr

- £15,976,000 yn deillio o wariant arall
- £1,697,000 gostyngiad net yn y targedau incwm

Croesawodd y Cadeirydd Ian Allwood, Pennaeth Cyllid ac Allan Evans, Rheolwr Gweithredol, Cyfrifeg i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i wneud sylwadau, i ofyn am eglurhad neu i godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Nododd yr Aelodau y rhagwelwyd y byddai benthyca'r 4 neu 5 mlynedd nesaf oddeutu £843,000,000. Holodd yr Aelodau a oedd y lefel hon o fenthyca yn ddichonadwy ac a fyddai'n gynaliadwy pe bai refeniw'n gostwng. Dywedodd swyddogion fod benthyca'n gynaliadwy ar hyn o bryd ond y bydd benthyca pellach yn ychwanegu pwysau ychwanegol. Bydd yr awdurdod yn chwilio fwyfwy am gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

- Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n anghywir gwneud tybiaethau ynghylch cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai benthyca ychwanegol yn arwain at lai o refeniw. Gofynnwyd i swyddogion pa effaith a gâi hyn a beth yw'r strategaeth tymor hwy ar gyfer y cyfrif refeniw. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n gamgymeriad tybio na fyddai benthyca ychwanegol yn dod â rhywfaint o fudd i'r cyfrif refeniw, er enghraifft, mae buddsoddi yn y seilwaith priffyrdd yn osgoi gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio diangen. Roedd yr unig fenthyciadau ychwanegol a oedd yn angenrheidiol dros y 5 mlynedd nesaf yn ymwneud â darparu arena dan do.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar rwymedigaethau'r Cyngor o ran cyfraniadau pensiwn athrawon, ac yn benodol, a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhyddhau arian ychwanegol. Dywedodd swyddogion ei bod yn rhy gynnar i roi ateb. Roedd rhywfaint o anghydfod o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r cyllid eisoes wedi'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Ni allai'r awdurdod ddibynnu ar ryddhau arian ychwanegol. Roedd yr Aelod Cabinet o'r farn ei bod yn afresymol i'r gwariant ychwanegol hwn ddisgyn ar gyllideb y Cyngor ac os a phryd y caiff y cyllid ei ryddhau gan Lywodraeth Cymru byddai'n rhoi hwb derbyniol.

- Nododd yr Aelodau y rhagwelwyd gostyngiadau pellach yn y gyllideb a chynnydd yn y galw am wasanaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddai pwysau ychwanegol, yn enwedig mewn ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau amgylcheddol. Gofynnodd un aelod a oedd y mecanwaith adnoddau ariannol yn ddigonol i gefnogi'r gwasanaethau hyn ac a oedd yn ddoeth galw ar gronfeydd wrth gefn yn ystod 2019/20. Nododd y Pennaeth Cyllid fod y cynllun ariannol tymor canolig yn ystyried ac yn cynnwys y rhyngweithio ynghyd â phwysau chwyddiant, rhagdybiaethau a chymhlethdod ychwanegol y cynllun datblygu lleol. Mae gan swyddogion ddarlun da o ran cynllunio ariannol ac maent yn bwriadu mantoli cyllidebau.

- Nododd y Pwyllgor fod diffyg o tua £3,000,000 ar darged arbedion o £14,960,000 yn 2017/18. Gofynnodd yr Aelodau pa sicrwydd y gellid ei roi na fydd targedau arbedion yn cael eu colli yn 2019/20. Nododd y Pennaeth Cyllid fod cydweithwyr Cyllid wedi ymgynghori â chyfarwyddiaethau a nododd mai mater o amseru yn bennaf yw'r diffyg mewn targedau arbedion. Dim ond 1 cynnig arbedion sydd wedi'i ddileu. Mae cyfarwyddiaethau yn gwbl ymwybodol o'u cynilion ac maent wedi ymrwymo i'w cyflawni. Nid yw'n bosibl rhoi sicrwydd y bydd cynigion arbedion 2019/20 yn cael eu cyflawni gan fod yna rai risgiau coch a choch/ambr. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y cynigion ar gyfer arbedion sydd â chynllun manwl ar waith.

- Awgrymu Aelod na ddylid cyflwyno cynigion arbed, os nad oes modd eu cyflawni. Dywedodd y Pennaeth Cyllid nad oes unrhyw arbedion a gyflwynir yn anghyraeddadwy. Mae risg uchel ynghlwm wrth rai arbedion ac mae nifer cynyddol o risgiau coch a choch/ambr. Dywedodd yr Aelod Cabinet gydag arbedion ar y raddfa hon, yn dilyn yr arbedion a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf, mae'n anochel y bydd rhywfaint o risg. Roedd yn bosibl lleihau'r risg drwy gau gwasanaethau, ond mae'r weinyddiaeth hon yn ceisio newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

PENDERFYNWYD - bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 62 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2019 I 2022 A CHYNIGION CYLLIDEB DRAFFT 2019/20

*Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth ac Andrew Gregory, Cyfarwyddwr, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cynghorydd Wild i wneud datganiad byr.

Dywedodd y Cynghorydd Wild fod y Gyfarwyddiaeth yn parhau â'i hagenda uchelgeisiol ac yn symud tuag at gludiant cynaliadwy yn y ddinas. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud a bydd mwy o gynnydd eleni. Derbyniodd yr Aelod Cabinet fod y Papur Gwyn ar drafnidiaeth o hyd i ddod ac y daw'r darlun yn gliriach unwaith y bydd y Strategaeth Awyr Glir wedi'i chyhoeddi. O ran y gyllideb, roedd llawer o ddibyniaeth ar gyllid grant ac roedd angen cadw rhywfaint o hyblygrwydd.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad. Gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau, i ofyn am eglurhad neu i godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau a yw systemau goleuadau traffig smart, fel y'u defnyddir ar y cyfandir, yn cael eu hystyried. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Gyfarwyddiaeth, o ran gwella'r rhwydwaith, yn edrych ar yr arferion gorau yn y DU/Ewrop. Mae hyn yn elfen sylfaenol o adnewyddu goleuadau traffig.

- Gofynnodd yr Aelodau a gafodd y Mecanwaith Adnoddau Ariannol (MAA) ei ddefnyddio i wella priffyrdd dros y 4 blynedd diwethaf. Dywedodd swyddogion ei fod wedi cael mynediad i'r MAA er mwyn gwella ac atgyweirio'r briffordd ac ychwanegu at y rhaglen teithio llesol.

- Nododd yr Aelodau fod targed arbedion o £300,000 wedi'i gynnig mewn Gorfodaeth Parcio Dinesig. Gofynnwyd i swyddogion a fyddai'r arbedion hyn yn cael eu cyflawni drwy gynyddu incwm. Dywedodd y Cyfarwyddwr y bydd yn ofynnol i lai o staff gyflawni'r un canlyniadau ar gyfer gwella effeithlonrwydd. Yna byddai'n bosibl adleoli staff ac annog mwy o hyblygrwydd.

- O ran y £250,000 ychwanegol a gynigiwyd ar gyfer leinio ffyrdd ac arwyddion ffyrdd, gofynnodd yr Aelodau pa mor bell y byddai'r arian ychwanegol yn mynd. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost effeithiol ac y byddai'n ategu gwelliannau eraill i'r priffyrdd. Cytunodd y Cyfarwyddwr i ddarparu rhagor o fanylion y tu allan i'r Pwyllgor.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn hyderus bod modd cyflawni'r incwm o £120,000 o symud cerbydau sy'n peri niwsans. Nododd swyddogion eu bod yn hyderus yn gyffredinol y gellid cyflawni'r targed.

- Gofynnwyd i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu beicffyrdd yn y ddinas. Dywedodd y Cyfarwyddwr y cynigiwyd 4 neu 5 llwybr ac y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno fesul cam. Byddai angen llawer o ymgynghori â'r cyhoedd a rhagwelodd y Cyfarwyddwr y byddai cyhoeddiad yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

- Gan gyfeirio at y £60,000 a ddyrannwyd tuag at gerbydau fflyd drydan, gofynnodd yr Aelodau faint o gerbydau a fyddai'n cael eu caffael. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r bwriad oedd darparu 92 o gerbydau trydan dros y 2 flynedd nesaf.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at sefydlu Cyfnewidfa Drafnidiaeth y Gorllewin yn Waungron Road. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y prosiect wedi'i ohirio oherwydd i'r safle gael ei halogi ac o ganlyniad i drafodaethau rhwng yr awdurdod a chymdeithas tai. Roedd cais cynllunio ar fin digwydd a byddai'r prosiect bellach yn symud ymlaen yn dilyn cytundeb cytundebol gyda'r gymdeithas tai.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cais am arian cyfalaf ar gyfer y gwaith ar Rodfa'r Mileniwm yn gais pwysau i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio sydd ei angen. Mae'r awdurdod yn parhau i chwilio am ffynonellau eraill o gyllid ac mae rhanddeiliaid cyfagos yn rhan o'r sgwrs honno.

- Gofynnodd yr Aelodau a fydd yr awdurdod yn dal i gymeradwyo'r benthyciad i Fysiau Caerdydd o ystyried eu cais llwyddiannus am arian i brynu 36 o fysiau trydan. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r benthyciad yn parhau i gael ei ddarparu.

- Gofynnodd Aelodau a oes arian wedi'i neilltuo yn dilyn heriau llwyddiannus diweddar yn y llys i Dramgwyddau Traffig sy'n Symud. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y dyfarniadau'n ddyfarniadau goddrychol gan ddyfarnwr annibynnol.  Mae'r safleoedd dan sylw wedi'u gwirio a chanfuwyd eu bod yn cydymffurfio.

*Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd*

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jane Cherrington, Rheolwr Gweithredol, Strategaeth a Gorfodaeth.  Gofynnwyd i'r swyddog roi cyflwyniad.  Agorodd y Cadeirydd y ddadl a gwahoddodd yr Aelodau i wneud sylwadau, i ofyn am eglurhad neu i godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau faint sy'n cael ei dalu i staff asiantaeth bob blwyddyn.  Dywedodd y swyddog fod tua £2,000,000 yn cael ei wario ar staff asiantaeth bob blwyddyn.  Mae'r gwariant yn uwch yn ystod misoedd yr haf pan fo casgliadau gwastraff gwyrdd ar eu hanterth. Mae'r ffigwr o £2,000,000 yn cynrychioli tua 20% o gostau rhedeg y Gyfarwyddiaeth ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn bwriadu recriwtio mwy o staff parhaol.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai gwasanaethau cymdogaeth yn gallu cynnal y lefel bresennol o wasanaeth o gofio'r arbedion o £160,000 a gynigiwyd.  Roedd y cyllid gan y MAA ar gyfer gweithgareddau glanhau dwfn am un flwyddyn yn unig.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y mecanwaith MAA yn darparu cyllid ar gyfer 1 tîm ychwanegol. Rhagwelwyd y byddai timau/unigolion yn cael eu symud i'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ymgynghori'n digwydd gydag aelodau'r ward o ran ailgynllunio'r gwasanaeth.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynllun peilot yn mynd rhagddo ar gyfer cynlluniau gweithredu ward.  Byddai llawer iawn o wybodaeth yn cael ei gwerthuso a byddai gwasanaethau'n cael eu haddasu o gwmpas hynny.  Bydd ymgysylltiad ffurfiol yn digwydd gydag aelodau'r ward fel rhan o'r broses honno.  Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n werth chweil ymgysylltu ag aelodau'r ward yn gyntaf, cyn i'r cyfnewidfeydd gael eu gweithredu.

- Cyfeiriodd Aelod at linell gyllideb 43 mewn perthynas â chanolfan ailgylchu gwastraff y cartref yng Ngogledd Caerdydd.  Roedd yr aelod o'r farn ei bod yn ymddangos bod llinell y gyllideb yn awgrymu y gallai fod disgwyl pedair blynedd.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Gyfarwyddiaeth yn ceisio dod o hyd i leoliad ac, unwaith y nodwyd hynny, y byddai gwaith diwydrwydd dyladwy a chynllunio yn cael ei wneud.  Rhagwelwyd y byddai adroddiad ar asesu safleoedd posibl yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth.

- Roedd Aelod o'r farn y dylid annog ysgolion i ailgylchu a gofyn, felly, pam y cafodd rhai contractau casglu gwastraff ysgol eu hallanoli. Dywedodd y swyddog fod gwasanaeth casglu gwastraff yn cael ei

gynnig i bob ysgol a bod 75% o'r ysgol yn dewis defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gan ysgolion eu cyllidebau eu hunain, ac mae ganddynt hawl i benderfynu ar eu gwasanaeth casglu gwastraff eu hunain. Mae trafodaethau ynghylch y mater hwn yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgyrch 'Ysgolion Diwastraff' arfaethedig.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gwasanaeth wedi cael ei ail-ddylunio'n helaeth yn 2011. Mae arfer gorau yn awgrymu y dylid adolygu gwasanaethau bob 10 mlynedd.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Ap Caerdydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a'i fod yn helpu i ddidoli galwadau mynych.

- Nododd swyddogion y byddai'r gyfradd ailgylchu ar gyfer y flwyddyn rhwng 60% a 61%. Byddai rhaglen wedi'i thargedu yn helpu i wthio'r gyfradd ailgylchu tuag at 64%. Fodd bynnag, mae cynyddu y tu hwnt i 64% yn parhau i fod yn her fawr a gall deddfwriaeth yn y dyfodol hefyd effeithio ar dargedau.

- Llinell Gyllideb 42 – Gofynnodd Aelod a oedd dyddiadau cychwyn a chwblhau'r prosiect erydu arfordirol yn hysbys. Dywedodd swyddogion fod gwaith dylunio wedi dechrau ac unwaith y bydd y fanyleb dechnegol yn hysbys yna byddai'n bosibl darparu dyddiad cwblhau mwy manwl gywir. Rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn para 3 neu 4 blynedd.

- O ran y £550,000 a neilltuwyd ar gyfer codi tâl am gerbydau trydan, hysbyswyd yr Aelodau y byddai arian yn cael ei ddyrannu tuag at arian cyfatebol ar gyfer cartrefi preifat a byddai rhai pwyntiau pweru'n cael eu darparu ar gyfer fflyd cerbydau trydan yr awdurdod.

PENDERFYNWYD - bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 63 : YSTYRIED ADRODDIAD DRAFFT Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL, O'R ENW 'SBWRIEL A THIPIO ANGHYFREITHLON YNG NGHAERDYDD' - YMARFER TASG A GORFFEN'

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Tasg a Gorffen drafft ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cael eu gwahodd i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau. Ymdriniodd y prif swyddog craffu â phob gwelliant a awgrymwyd. Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r adroddiad fel yr awgrymwyd.

Roedd yr Aelodau'n dymuno cofnodi eu diolchiadau i'r Prif Swyddog Craffu a'r Tîm Craffu am lunio adroddiad mor gynhwysfawr.

## 64 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - RHAGLEN WAITH 2018/19

Trafododd y Pwyllgor Raglen Waith y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn sefyll ddwywaith yn ystod mis Mawrth. Byddai'r cyfarfod ar 5 Mawrth 2019 yn derbyn

adroddiadau ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus, Canolfan Ailgylchu Gwastraff Gogledd Caerdydd a'r Polisi Apeliadau Parcio. Byddai cyfarfod ychwanegol ar 19 Mawrth 2019 am 5.00pm yn ystyried Ansawdd Aer, Strategaeth Fwyd, Trafnidiaeth Gyhoeddus a Fferm Solar Ffordd Lamby. Cynigiwyd canslo cyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor.

Byddai ymchwiliad tasg a gorffen newydd yn cael ei gynnal i'r Polisi Bioamrywiaeth.

65 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 5 MAWRTH 2019

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn cael ei drefnu ar gyfer 5 Mawrth 2019.

66 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm